**ELL 12- 01(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 27 Mehefin 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

***Aelodau***

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Derek Adams | Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch |
| Ann MacGregor | Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Deryck Jones | Yr Is-adran Cymorth Disgyblion |
| Judith Cole | Yr Is-adran Addysg Uwch |
| Tony Widdrington | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Dirprwyadau**
Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Pauline Jarman | Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd; ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

***Sesiwn Preifat***

**Eitem Un: Adolygiad Polisi – Adolygiad Addysg Uwch – Cam Gwerthuso II**
Ymgymerodd y Pwyllgor â Cham Gwerthuso II o'r Adolygiad Addysg Uwch mewn sesiwn preifat.

***Sesiwn Cyhoeddus***

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Diolchodd y Cadeirydd yr Ymgynghorydd Arbennigol am drefnu arddangosiad o'r cynnydd mewn e-ddysgu gan ei gydweithwyr ym Mhrifysgol Morgannwg cyn y cyfarfod. Mynegodd yr aelodau a nad oedd yn gallu bod yn bresennol diddordeb mewn fynychu cyflwyniad arall ar y maes os y gellir ei drefnu.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gadarnhau nad oedd eu buddiannau wedi newid ers y cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol.

- Llongyfarchodd y Cadeirydd gynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor, Tony Widdrington (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol) ar ddyfarnu medal Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig iddo yn Rhestr Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Darparu Leoedd mewn Ysgolion – Adroddiad Terfynol Drafft**
***Papur: ELL 12-01(p.1)***
2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gymeradwyo neu newid yr Adroddiad Terfynol Drafft ar Ddarparu Lleoedd mewn Ysgolion. Dywedodd y

Cadeirydd fod dadl i fod ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf a bod rhaid ei gyflwyno erbyn 2 Gorffennaf. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y Pwyllgor wedi cael cyfle cyn y cyfarfod i hysbysu'r Clerc am unrhyw newidiadau yr oeddent yn eu hawgrymu.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Gweinidog fod adroddiad Comisiwn Archwilio Cyfrifon y Dosbarth yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn ac yr oedd yn falch ei fod wedi ei gynnwys fel atodiad i adroddiad y Pwyllgor. Cytunodd y Cadeirydd â sylw'r Gweinidog.

- Mynegodd Eleanor Burnham y farn, " y dylai'r canllawiau gwmpasu'r polisi a ddatganwyd gan Weinyddiaeth y Cynulliad fel y'i disgrifir yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (y Cytundeb Partneriaeth) i gynorthwyo ysgolion bach/gwledig, i hybu ffederasiynau, rhwydweithio TG a dulliau eraill o gynorthwyo ysgolion llai". Awgrymodd y dylid ychwanegu'r testun hwn fel pedwerydd argymhelliad.

- Credai Gareth Jones y gallai rhai ystyried bod rhai o'r pwyntiau a wneir yn adroddiad Comisiwn Archwilio Cyfrifon y Dosbarth yn ddadleuol, yng ngolwg cyfeiriad yn yr adroddiad nad oedd rhai o'r awdurdodau'n sicrhau cywirdeb eu hystadegau. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith nad oedd geiriau adroddiad Comisiwn Archwilio Cyfrifon y Dosbarth yn cynrychioli geiriau'r Pwyllgor. Yr oedd adroddiad Comisiwn Archwilio Cyfrifon y Dosbarth yn atodiad a byddai er gwybodaeth yn unig.

- Cododd Lorraine Barrett y mater o briodoldeb cymeradwyo polisi'r Cytundeb Partneriaeth yn benodol yn adroddiad y Pwyllgor: buasai wedi hoffi cael rhybudd yn gynt fod hyn i'w gynnig. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith nad oedd y Pwyllgor wedi ystyried polisi'r Cytundeb Partneriaeth yn ystod ei adolygiad. Eglurodd y Gweinidog ei bod yn cefnogi bwriad testun Eleanor Burnham ond teimlai mai amhriodol oedd newid yr adroddiad drafft. Cytunodd y Cadeirydd a theimlai y byddai cynnwys y testun hwn y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor. Cytunodd Eleanor Burnham i dynnu'n ôl ei newidiad.

- Cyfeiriodd Gareth Jones at y testun ym mharagraff pedwar ar dudalen 19 yn y papur a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd y testun yn crybwyll Cyfle Cyfartal neu Ddatblygu Cynaliadwy, ac nad oedd sôn amdanynt yn unman arall yn y ddogfen. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y rhan hon o'r testun yn ddyfyniad uniongyrchol o ddogfen a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ac na ellid ei newid. Yr oedd cyfeiriad at Ddatblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal yn yr adroddiad yng nghyd-destun hygyrchedd lleoedd mewn ysgolion a chludiant.

- Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cynnwys cyfeiriad priodol at dair thema allweddol y Cynulliad yn y Rhagair.

- Wedyn derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft yn adroddiad gan y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn.

**Eitem Tri: Ystyriaeth gychwynnol o flaenoriaethau'r gyllideb, yn unol â Rheol Sefydlog 9.8**

***Papurau: ELL 12- 01(p.2), ELL 12- 01(p.2) Atodiad 1 a ELL 12- 01(p.3) a ELL 12- 01 (p.3) Atodiad 1***

3.1 Yr oedd holl Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc wedi derbyn memorandwm comisiynu a anfonwyd gan y Gweinidog Cyllid, Edwina Hart ar yr ystyriaeth gychwynnol o flaenoriaethau'r gyllideb (papur ELL 12-01(p.2) ynghyd ag Atodiad 1). Ymatebodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda phapur a oedd yn amlinellu ei hasesiad rhagarweiniol o'i blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod a gynhwysir yng Nghylch Cynllunio'r Gyllideb 2001. Yr oedd y Pwyllgor wedi cael cyfle i wneud sylw ar y blaenoriaethau hyn a byddai angen wedyn i'r Pwyllgor gyflwyno ei farn mewn nodyn oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes erbyn 20 Gorffennaf 2001. Byddai Cabinet y Cynulliad wedyn yn cynhyrchu cyllideb ddrafft i'w hystyried gan y Pwyllgorau Pwnc yn Hydref 2001.

3.2 Dywedodd y Gweinidog iddo fod o gymorth, yn ei barn hi, i'r Pwyllgor dderbyn Papur Comisiynu'r Gweinidog Cyllid a'i phapur blaenoriaethau cyllideb ei hun yn yr un cyfarfod, fel y gallai'r Aelodau edrych ar yr hyn a gyflawnwyd hyd hynny a'i barn ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i ddarparu addysg gydol oes o ansawdd uchel i bawb tra'n hyrwyddo gwelliant parhaus tymor hir.

3.3 Cyfeiriodd y Gweinidog at ei phapur gan roi adolygiad i'r Pwyllgor o'r hyn a gyflawnwyd dros y cyfnod 2000-01 a chyflwynodd ei phrif flaenoriaethau ar gyfer Cylch Cynllunio Cyllideb 2001. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n ddiolchgar o dderbyn sylwadau gan y Pwyllgor, yn enwedig ynghylch Adran B ei phapur: *"Blaenoriaethau: pwysau a rhwystrau rhag cynnydd".* Cyfeiriodd y Gweinidog yn benodol at feysydd lle'r oedd angen gwella: prinder mewn Sgiliau Allweddol, lefelau cymhwyster rhy isel yn y boblogaeth o oed gweithio a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl 16 anghyson. Pwysleisiodd y Gweinidog mor bwysig oedd ymdrin â'r agenda anabledd a chodi safonau'n gyffredinol mewn addysg. Rhoddai bwyslais allweddol ar wireddu agenda'r Cynulliad mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol.

3.4 Yr oedd y Gweinidog wedi ymateb i gais y Pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol i ddarparu manylion ysgrifenedig ynghylch yr Alldro Cyllideb ar gyfer 2000-01, yn enwedig y tanwariant mewn cyllidebau addysg. Atodir copi o hwnnw yn Atodiad A. Pwysleisiodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd hyn yn fater o golli cyllid yn y bôn ond o ailbroffilio – cafwyd cytundeb eisoes i gario £49 miliwn o'r £56 miliwn ymlaen. Ar gais Pauline Jarman, yr oedd y Gweinidog wedi darparu, ar fyr rybudd, wybodaeth am wariant pob awdurdod lleol o dan raglenni'r Fargen

Newydd a chyllid cyfalaf ychwanegol. Rhoddwyd copi o'r wybodaeth hon i'r Aelodau a gellir ei weld yn Atodiad B.

3.5 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pam yr oedd tanwariant yng ngwariant cyfalaf ysgolion o £30.7 miliwn os oedd yn hysbys o'r dechrau y byddai'n anodd i'r awdurdodau gyrraedd gwariant o'r lefel hon yn 2000-01. Yr oedd hefyd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth a ddigwyddai i'r £7 miliwn a oedd yn weddill ar ôl trosglwyddo £49 miliwn o'r tanwariant i 2001-02. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Aelodau at baragraff saith yn y papur Alldro Cyllideb 2000-01. Pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth Leol wedi bod yn barod ar gyfer y gwariant cyfalaf ysgolion uwch y derbyniodd gyllid ar ei gyfer. Dymunai i'r Cynulliad weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau ei bod yn barod i gyrraedd y lefelau buddsoddi mwy a oedd eu hangen er mwyn codi ysgolion i gyflwr ffisegol da. Rhan allweddol o hynny oedd ymrwymiad parhaus gan y Cynulliad i lefelau ariannu uwch a fyddai'n galluogi awdurdodau i gynllunio'n hyderus. Gyda gwybodaeth o'r fath, gallai awdurdodau lleol baratoi cynlluniau a recriwtio'r staff angenrheidiol i gyflawni rhaglenni buddsoddi sylweddol. Ychwanegodd y Gweinidog fod mwy o bosibiliad o danwario mewn sefyllfa lle'r oedd gwariant cyfalaf yn cynyddu. Yr hyn a oedd yn bwysicaf ganddi oedd y byddai'r holl awdurdodau ymhen 12 mis wedi dangos eu bod yn gallu bwrw ymlaen â chynlluniau gwariant yn unol â dymuniadau'r Cynulliad. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn negodi â'r Gweinidog Cyllid, Edwina Hart, ar y pryd mewn perthynas â defnyddio'r gweddill o £7 miliwn o'r tanwariant.

- Cododd Gareth Jones y priodoldeb, yn y rhan hon o'r cyfarfod, o drafod alldroadau cyllideb yn hytrach na chanolbwyntio ar flaenoriaethau cyllideb. Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n amhosibl osgoi'r mater a'i bod, felly, yn briodol i'r Pwyllgor fynd ymlaen â'r drafodaeth.

- Holodd yr Aelodau faint y byddai cynllun peilot y Fagloriaeth Gymreig yn ei gostio. Atebodd y Gweinidog y byddai'n gwneud datganiad ar gynllun peilot y Fagloriaeth Gymreig drannoeth (28 Mehefin 2001) ac yr ymatebai bryd hynny.

- Codwyd mater hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng nghyd-destun y medrau penodol gan y byddai angen i athrawon weithredu strategaeth TGCh y Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog fod angen strategaeth glir o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon drwodd at ddarparu mewn ysgolion; yr oedd TGCh mewn ysgolion yn flaenoriaeth ac yr oedd tasglu wedi ei sefydlu eisoes.

- Holodd yr Aelodau a fyddai'r Gweinidog yn darparu adnoddau ychwanegol i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd - Medi 2001, yng ngoleuni adroddiad ac argymhellion y Grŵp Ymchwilio i Gyni Myfyrwyr. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai Cabinet y Cynulliad yn ymateb i'r adroddiad cyn gynted ag y byddai modd. Ar hyn o bryd, nid oedd digon o adnoddau i ganiatáu cynnydd mewn ariannu mewn pryd ar gyfer y tymor newydd, Medi 2001.

- Croesawodd Pauline Jarman y cyllid cyfalaf ychwanegol i awdurdodau lleol ond dadleuodd fod yr amserlen rhwng hysbysu'r awdurdodau am y cyllid ychwanegol (Hydref 2000) a diwedd y flwyddyn ariannol yn rhy fyr, yn enwedig gan mai gwyliau'r haf oedd yr adeg fwyaf cyfleus i wneud gwaith cynnal a chadw/adeiladu. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y ffigurau am wariant awdurdodau unigol o raglenni'r Fargen Newydd a Chyfalaf Ychwanegol yn ffigurau cronnol pedair blynedd ac nad oeddent yn ffigurau am flwyddyn unigol. Atgoffaodd y Gweinidog Pauline Jarman fod y cais am yr ystadegau ychwanegol hyn wedi ei dderbyn ar fore'r cyfarfod ac yr oeddent wedi eu darparu mor fuan â phosibl. Hysbysodd y Cadeirydd Pauline Jarman y byddai'n well pe na fyddai'n cyfeirio'n fynych at brofiad un Awdurdod Lleol penodol. Ychwanegodd Elizabeth Taylor fod y ffigurau am un flwyddyn am Gymru gyfan wedi eu rhoi ym mharagraff pedwar o'r papur Alldro Cyllideb 2000-01 – y llinellau 'cyfalaf ysgolion a gynhelir â grant/ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir' a 'cyfalaf ysgolion (budd-dal i waith)'. Eglurodd hefyd fod y cyllid cyfalaf ychwanegol o fewn y flwyddyn o tua £26 miliwn wedi ei roi'n wreiddiol yn y llinell 'addysg – cyllid cyfalaf cyffredinol' ond ei fod wedi ei drosglwyddo wedyn i'r llinell 'cyfalaf ysgolion a gynhelir â grant/ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir' a hyn a oedd yn rhoi cyfrif am y gwahaniaethau sylweddol yn y cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer y llinellau hyn.

- Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw amodau penodol a oedd yn sicrhau bod cyllid cyfalaf cyffredinol a ddyrannwyd i addysg yn cael ei wario ar ysgolion/addysg. Atebodd Elizabeth Taylor nad oedd cyllid cyfalaf cyffredinol a oedd yn rhan o'r setliad cyfalaf llywodraeth leol blynyddol yn cael ei bridiannu ar gyfer gwasanaethau unigol. Gellid defnyddio cyllid cyfalaf cyffredinol i ddibenion eraill. Yr oedd y Fargen Newydd i Ysgolion a Chyllid Cyfalaf Ychwanegol i Ysgolion yn grantiau a bridiannwyd ac yr oedd yn rhaid i Awdurdodau Lleol eu gwario at ddibenion ysgolion. Yr oedd angen i'r Cynulliad dracio'r hyn yr oedd Awdurdodau Lleol yn ei wario ar ysgolion o'u cyllideb cyfalaf cyffredinol. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'r Aelodau efallai'n dymuno gofyn i'w Hawdurdodau Lleol faint yr oeddent wedi ei wario ar ysgolion o'u cyllid cyfalaf cyffredinol.

- Awgrymodd yr Aelodau fod methiant yr awdurdodau i wario yn 2000-01 yn golygu mewn gwirionedd eu bod wedi gwario llai ar gyfalaf ysgolion nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac yr oedd hyn yn gam yn ôl. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gwrthod hyn yn llwyr. Yr oedd y cyllid wedi codi i £101

miliwn ac nid oedd dim o'r arian wedi ei golli fel na ellid ei fuddsoddi mewn ysgolion. Ychwanegodd y Gweinidog nad oedd gan Lywodraeth Leol raglenni cyfalaf cynlluniedig yn aml hyd yn ddiweddar, na thystiolaeth briodol am gyflwr adeiladau ysgolion. Yn awr yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau rheoli asedau a ganiatâi iddynt ddynodi blaenoriaethau yng ngoleuni gwybodaeth gynhwysfawr ar gyflwr adeiladau ysgolion. Yr oedd angen i AALlau allu bod yn hyderus y byddai cyllid y Cynulliad a chefnogaeth yr holl bleidiau ar gael yn y dyfodol fel y gallent wneud cynnydd sylweddol.

- Nododd yr Aelodau fod cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyllid cyfalaf wedi ei warantu i AALlau am y tro cyntaf. Nododd yr Aelodau hefyd y byddai'n fuddiol cael gwybodaeth am wariant yn fwy aml – dwywaith neu dair y flwyddyn.

- Gofynnodd yr Aelodau sut yr oedd cyllid GCAH yn mynd yn ei flaen. Dywedodd y Gweinidog mai un o'r ystyriaethau allweddol i'r Aelodau oedd targedu cyllid GCAH er mwyn mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol. Ychwanegodd Richard Davies fod y fformiwlâu GCAH wedi eu hail-lunio ac y byddid yn rhoi cyngor i'r Gweinidog ar hynny cyn hir.

- Galwodd Pauline Jarman am fonitro rheolaidd ar y gyllideb fel rhan o adroddiad misol y Gweinidog i'r Pwyllgor. Atgoffaodd y Cadeirydd Pauline Jarman y gallai'r Aelodau ofyn i'r Gweinidog adrodd ar bynciau penodol os dymunent.

- Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor, mewn perthynas â'r tanwariant o £8 miliwn ar ailstrwythuro athrawon, fod hyn yn codi'n bennaf o effaith gynyddol yr oedi mewn asesu trothwy. Ni allasai'r ysgolion ac eraill ymdopi â gwaith ar hyn ac ar reoli perfformiad yr un pryd. Un o'r galwadau posibl ar y £7 miliwn a oedd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd o'r tanwariant oedd cyllid ychwanegol ar gyfer costau taliadau trothwy i unrhyw awdurdod yr oedd ei gyfran o'r cyllid i'r diben hwn o fewn setliad refeniw llywodraeth leol yn annigonol.

- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor, os oedd unrhyw Aelodau'n dymuno holi'r Gweinidog ynghylch y tanwariant yn yr alldro cyllideb, y dylent wneud hynny mewn ysgrifen.

**Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai trafodaethau ynghylch y Cylch Cynllunio Cyllideb 2000-01 yn parhau yn y cyfarfod nesaf ar 11 Gorffennaf 2001.**

**Eitem Pedwar: Cofnodion cyfarfod 13 Mehefin 2001**
***Papur:*** ***ELL 11- 01(mins)***
4.1 Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf.

4.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Tynnodd Alun Pugh sylw at y ffaith ei fod wedi cyfeirio, ym mharagraff naw o’r cofnodion, at lefelau o ordewdra ymysg plant ysgol a oedd yn peri gofid a’i fod wedi awgrymu y dylid annog plant i gerdded, seiclo neu ganfod dull iach o gyrraedd yr ysgol, yn hytrach na dim ond eistedd mewn car. Nid oedd y cofnodion ond yn cyfeirio at blant yn seiclo. *(Newidiwyd y cofnodion wedyn.)*

- Cyfeiriodd y Gweinidog at baragraff saith o’r cofnodion a dywedodd iddi ddweud bod 20 o Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn ffurfiol ond y gellid bod wedi cael 21 pe byddai Conwy a Sir Ddinbych wedi ymrannu. Yr oedd y cofnodion yn nodi bod 21 CCAH. *(Newidiwyd y cofnodion wedyn.)*

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mehefin 2001**

**Atodiad A**

***ELL 12- 01***

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Alldro Cyllideb 2000-01**

**PWRPAS**

1. Yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad ar alldro Prif Grŵp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes am 2000-01. Bydd y Gweinidog Cyllid yn gwneud datganiad, yn ôl yr arfer, ar yr alldro ar draws cyllideb y Cynulliad yng Ngorffennaf.

**AMSERIAD**

2. I'w ystyried ar 27 Mehefin.

**Rhagarweiniad**

3. Ymgymerir â gwariant ar addysg a dysgu gydol oes drwy ddau brif lwybr – gan y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a'r ddarpariaeth cyfalaf i awdurdodau lleol, drwy'r dyraniadau a gyhoeddir ac a gytunir fel Prif Grŵp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes y gyllideb; ac ar gyfer costau rhedeg ysgolion, drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol blynyddol sydd yn dod o fewn Prif Grŵp Gwariant llywodraeth leol y Cynulliad. Mae'r cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer addysg ysgolion a ddarparwyd y tu allan i'r setliad cymorth refeniw yn 2000-01 (£20.5 miliwn ym Mai 2000 a £7.9 miliwn yn Rhagfyr 2000) wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn o dan Is-grŵp Gwariant GCAH. Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur ar gyllidebau awdurdodau addysg lleol ar gyfer ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf.

**Prif Grŵp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes: Alldro**

4. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r gyllideb a'r alldro terfynol yn erbyn y cyllidebau addysg a dysgu gydol oes sydd o dan fy mhortffolio. Cwblhawyd y ffigurau terfynol (cymwysiadau mis 13) erbyn diwedd Mai ac yr oedd y ffigurau ar gael ddechrau Mehefin.

| Teitl yr Is-grŵp gwariant | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Alldro | Gwahan-iaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Hyfforddiant a Menter | 133,789,000 | 135,179,000 | 134,184,454 | - 994,546 |
| Hyfforddiant Ieuenctid ac Oedolion | 20,431,000 | 20,641,000 | 20,640,500 | - 500 |
| Cyngor Cyllido Addysg Bellach | 213,570,000 | 213,570,000 | 213,080,000 | - 490,000 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch | 292,657,000 | 292,657,000 | 292,657,000 | - |
| Cronfeydd Mynediad Myfyrwyr | 8,725,000 | 9,806,000 | 9,091,176 | - 714,824 |
| Hybu Dysgu Gydol Oes | 4,421,000 | 4,421,000 | 3,167,635 | - 1,253,365 |
| Cronfa Datblygu Ymchwil | 4,000,000 | 4,000,000 | 4,000,000 | - |
| Dysgu : Ailstrwythuro | 16,410,000 | 13,259,000 | 5,047,002 | - 8,211,998 |
| GCAH [1] | 63,235,000 | 70,229,000 | 64,534,804 | - 5,694,196 |
| Cyfalaf Ysgolion a Gynhelir â Grant/Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir [2] * | 10,333,000 | 41,164,000 | 15,772,190 | - 25,391,810 |
| Cyfalaf Ysgolion (Budd-dal i Waith)* | 15,365,000 | 15,365,000 | 10,073,742 | - 5,291,258 |
| Cyfanswm : Addysg Arall | 23,037,000 | 24,593,000 | 16,681,579 | - 7,911,421 |
| Addysg: Cyllid Cyfalaf Cyffredinol* | 71,479,000 | 44,689,000 | 44,596,000 | - 93,000 |
| **CYFANSWM : ADDYSG A HYFFORDDIANT** | **877,452,000** | **889,573,000** | **833,526,082** | **- 56,046,918** |

**Nodiadau**

[1] y cyllid refeniw ysgolion ychwanegol ym Mai a Rhagfyr 2000 sydd yn rhoi cyfrif am £28.4 miliwn o Is-grŵp Gwariant GCAH.

[2] mae'r Is-grŵp Gwariant Cyfalaf Ysgolion a Gynhelir â Grant/Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cynnwys cyfalaf ysgolion yr awdurdodau lleol; y dadansoddiad yw:

| Teitl y Llinell Gwariant Cyllideb | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Alldro | Gwahan-iaeth |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir - Cyfalaf | 5,884,000 | 6,235,000 | 5,853,305 | - 381,695 |
| Y Fargen Newydd i Ysgolion - Cyfalaf | 2,200,000 | 30,278,000 | 7,816,381 | -22,461,619 |
| Is-gyfanswm : A in A/ Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir | - 40,000 | - 40,000 | - 36,357 | 3,643 |
| Ysgolion a Gynhelir â Grant - Cyfalaf | 2,289,000 | 4,691,000 | 2,138,860 | - 2,552,140 |
| **CYFANSWM : Ysgolion a Gynhelir â Grant/Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (Is-grŵp Gwariant)** | **10,333,000** | **41,164,000** | **15,772,190** | **-25,391,810** |

5. Cyfanswm y tanwariant yn erbyn y gyllideb derfynol yw £56 miliwn neu 6%.

6. Mae tanwariannau'n digwydd ar amryw o raglenni ac am wahanol resymau - mae tua 200 o gyfrifon mewn 50 o Linellau Gwariant Cyllideb o fewn Prif Grŵp

Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes, yr amcangyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer pob un ohonynt 12 mis neu fwy ymlaen llaw. Mae tanwariant yn fwy tebygol o ddigwydd pan yw cyllideb fawr yn cynyddu. Cyfanswm y cyllidebau addysg cyn ac ôl 16 ar gyfer 1999-2000 oedd £749.178 miliwn (trefnwyd y cyllidebau'n wahanol yn y flwyddyn honno ac er eu bod yn weddol debyg mae rhai rhaglenni wedi eu trosglwyddo); y tanwariant y flwyddyn honno oedd £16.4 miliwn neu 2%.

7. O'r £56 miliwn nas gwariwyd yn 2000-01, cyfalaf ysgolion oedd £30.7 miliwn (yr Is-grwpiau Gwariant a nodwyd â seren yn y tabl uchod). Y ddarpariaeth cyfalaf ysgolion yn 1999-2000 oedd £69.7 miliwn ac yr oedd y gwariant bron yn gyson â'r gyllideb. Mae'r cyllidebau wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny; yr oedd y cyllidebau cyfalaf ysgolion am 2000-01 a ddangosir uchod dros £101 miliwn. Mae'n cymryd amser i'r awdurdodau lleol ymbaratoi i drafod rhaglen gweithgaredd fwy o lawer – gwyddem yn benodol y byddai'r awdurdodau'n ei chael yn anodd gwario'r £26 miliwn a ddyrannwyd o fewn y flwyddyn. Mae'r adnoddau'n parhau i fod ar gael i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd ar gyfer eu dyraniadau Bargen Newydd a chyllid ychwanegol. Disgwylir y byddant yn gwario hyd at £21 miliwn o'r dyraniadau hyn yn y flwyddyn ariannol hon a'r gweddill yn 2002-03 ar ben y dyraniadau newydd ar gyfer 2001-02 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer 2002-03.

8. O'r tanwariant yn "Addysg Arall", yr oedd y rhan fwyaf yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (lle mae bron £7 miliwn yn gysylltiedig â'r cynllun penodol i ddarparu cyfarpar TGCh mewn ysgolion, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a phwyntiau mynediad eraill ledled Cymru). Ni weithredwyd y rhaglen TG Addysg yn 2000-01 am ein bod yn dymuno ei chael yn iawn, gan roi sylw i'r ystyriaeth i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gan y Pwyllgor ar y pryd a barn yr awdurdodau lleol ar anghenion. Yr oedd y dull gweithredu a ddilynwyd yn caniatáu i awdurdodau lleol roi ystyriaeth ofalus i anghenion eu hysgolion a'u cymunedau a chyflwyno atebion lleol arloesol a dyfeisgar i anghenion lleol. Trosglwyddir yr adnoddau hyn i'r flwyddyn ariannol hon; gyda'r adnoddau sydd eisoes yn y gyllideb a gyhoeddwyd, mae hyn yn golygu rhaglen £16 miliwn o adnewyddu a buddsoddi mewn cyfarpar TG. Yn ddiweddar cymeradwyais gynlluniau gwario AALlau o dan y fenter hon a fydd yn darparu ar gyfer agor Canolfannau Dysgu o fis Medi ymlaen.

9. Ynghylch "ailstrwythuro dysgu" yr oedd y tanwariant o £8 miliwn yn codi'n bennaf o ganlyniad i effeithiau cynyddol yr her gyfreithiol i'r trefniadau ar gyfer asesu trothwy a gynigiwyd gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth fel yr oedd bryd hynny. Mae'r asesiadau lleol ar gyfer y trefniadau rheoli perfformiad newydd i'w gwneud gan yr un rhai mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ag sydd yn gysylltiedig â'r trefniadau tâl trothwy a ohiriwyd a buasai hynny'n faich afresymol ar ysgolion a phenaethiaid ysgol yn arbennig.

10. Ymysg y rhesymau am danwariannau eraill y mae diffygion mewn cyfrifon dysgu unigol (rhan o'r Is-grŵp Gwariant Cymorth Hyfforddi a Menter uchod) lle y cododd arbedion o ganlyniad i'n penderfyniad i wneud cytundeb ag un cyflenwr

yn hytrach nag un arall, gostyngiad yn nifer y lleoedd cynorthwyedig a oedd i'w hariannu ac effeithiau clwy'r traed a'r genau ar elfennau yn y rhaglen GCAH.

**Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn**

11. Mae hyblygrwydd diwedd blwyddyn (a elwir hefyd yn gyllid i'w gario ymlaen) ar gael i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn defnyddio tanwariant fel y mae ar gael i holl Adrannau'r Llywodraeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Ni ellir cadarnhau'r swm ar gyfer y Cynulliad fel cyfangorff hyd nes bydd y Trysorlys wedi cyhoeddi'r Papur Gwyn blynyddol ar alldro yng Ngorffennaf a fydd hefyd yn nodi'r hawl i dderbyn hyblygrwydd diwedd blwyddyn gan bob un o Adrannau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ymarferol, ceir y cyfle cyntaf i gario adnoddau ymlaen yn Rhagfyr wedi i'r Senedd gymeradwyo Amcangyfrif Atodol y Gaeaf. Fel arfer mae'r Gweinidog Cyllid yn rhoi datganiad i'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar ôl y gymeradwyaeth hon. Bydd y ddarpariaeth fwy yn ymddangos yn ffurfiol mewn cyllidebau drannoeth datganiad y Gweinidog Cyllid. Wrth gwrs, mae'r union swm yr estynnir amdano yn amodol ar yr adolygiad arferol o wariant – nid oes budd mewn ymestyn am adnoddau i gyfrannu at danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fel rhan o'r rheolaeth arferol barhaus ar y gyllideb yr wyf yn adolygu'r anghenion a'r pwysau ac yn rheoli'r cyllidebau yn unol â hynny o fewn y flwyddyn. O dan Reol Sefydlog 19 ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch newidiadau i ddyraniadau rhwng llinellau gwariant y gyllideb.

12. Fel y nodais, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cytuno am y tro i gario ymlaen y rhan helaethaf o'r adnoddau o'r flwyddyn ddiwethaf nas defnyddiwyd gan gynnwys cymorth i wynebu pwysau a blaenoriaethau newydd lle nad oes angen amdano i gynnwys llithriant.

O'r £56 miliwn nas gwariwyd yn 2000-01, yr wyf wedi cytuno ar y canlynol am y tro â'r Gweinidog Cyllid:

- cario ymlaen adnoddau cyfalaf – proffil ar hyn o bryd o £21 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon a £10 miliwn yn 2001-02;
- cario ymlaen dros £7 miliwn ar gyfer TG Addysg;
- cario ymlaen £1.5 miliwn a drosglwyddwyd eisoes i'r setliad llywodraeth leol i gynorthwyo cynllun ymddeol cynnar i benaethiaid ysgol
- cario ymlaen dros £0.5 miliwn i barhau â gwaith ar bartneriaethau rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant;
- defnyddio bron £9 miliwn o'r adnoddau nas gwariwyd i gwrdd â blaenoriaethau newydd

13. Yn gyfan gwbl, o'r £56 miliwn o danwariant, mae'r Gweinidog Cyllid a minnau wedi cytuno am y tro fod bron £50 miliwn ar gael i'r pwrpasau uchod. Penderfynir ar ddefnydd pellach o adnoddau, ar draws y Cynulliad – ac nid ydyw ond yn fis Mehefin – yn ystod y flwyddyn ariannol wrth i bwysau a blaenoriaethau newydd ddod i'r golwg.

**Cydymffurfio**

14. Ymdrinnir â gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â dyrannu cyllidebau rhaglenni o dan Reol Sefydlog 19. Mae'r papur hwn yn ymwneud â Phrif Grŵp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes yng nghyllideb y Cynulliad. Mae'r pwerau sydd yn gysylltiedig â hwy wedi eu trosglwyddo i, neu eu rhoi i'w harfer gan, y Cynulliad Cenedlaethol a dirprwywyd yr awdurdod i weithredu'r cynlluniau a'r rhaglenni cysylltiedig i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r swyddogion. Nid oes materion o briodoldeb neu reoleidd-dra.

**Atodiad B**

## Sefyllfa'r Fargen Newydd a Chyfalaf Ychwanegol mewn Awdurdodau Lleol

| Awdurdod | Blwyddyn | Cyfanswm y Dyraniad | Cyfanswm a Hawliwyd | Gweddill | % tanwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,057,881.00 | £ 1,005,219.50 | £ 52,661.50 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 654,000.00 | £ 80,495.00 | £ 573,505.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 1,711,881.00** | **£ 1,085,714.50** | **£ 626,166.50** | 36.6% |
| | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,097,634.00 | £ 1,413,634.00 | -£ 316,000.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 663,000.00 | £ 3,333.00 | £ 659,667.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 1,760,634.00** | **£ 1,416,967.00** | **£ 343,667.00** | 19.5% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,078,200.00 | £ 2,019,895.14 | £ 58,304.86 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,197,000.00 | £ 236,632.46 | £ 960,367.54 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,275,200.00** | **£ 2,256,527.60** | **£ 1,018,672.40** | 31.1% |
| **Caerffili** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,793,013.00 | £ 2,678,141.25 | £ 114,871.75 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,629,000.00 | £ 479,460.00 | £ 1,149,540.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 4,422,013.00** | **£ 3,157,601.25** | **£ 1,264,411.75** | 28.6% |
| **Caerdydd** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 4,565,258.00 | £ 1,576,842.00 | £ 2,988,416.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 2,590,000.00 | £ 729,000.00 | £ 1,861,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 7,155,258.00** | **£ 2,305,842.00** | **£ 4,849,416.00** | 67.8% |
| **Sir Gaerfyrddin** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 3,117,051.00 | £ 1,022,325.00 | £ 2,094,726.00 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,671,000.00 | £ - | £ 1,671,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 4,788,051.00** | **£ 1,022,325.00** | **£ 3,765,726.00** | 78.6% |
| **Ceredigion** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,415,671.00 | £ 693,662.00 | £ 722,009.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 721,000.00 | £ - | £ 721,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,136,671.00** | **£ 693,662.00** | **£ 1,443,009.00** | 67.5% |
| **Conwy (Cronni)** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,549,421.00 | £ 592,389.00 | £ 957,032.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 930,000.00 | £ 7,000.00 | £ 923,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,479,421.00** | **£ 599,389.00** | **£ 1,880,032.00** | 75.8% |
| **Sir Ddinbych** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,575,936.00 | £ 1,524,016.96 | £ 51,919.04 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 864,000.00 | £ - | £ 864,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,439,936.00** | **£ 1,524,016.96** | **£ 915,919.04** | 37.5% |
| **Sir y Fflint** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,270,815.00 | £ 1,572,855.00 | £ 697,960.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,333,000.00 | £ 83,498.00 | £ 1,249,502.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,603,815.00** | **£ 1,656,353.00** | **£ 1,947,462.00** | 54.0% |
| **Gwynedd** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,194,574.00 | £ 2,182,537.64 | £ 12,036.36 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,148,000.00 | £ 71,000.00 | £ 1,077,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,342,574.00** | **£ 2,253,537.64** | **£ 1,089,036.36** | 32.6% |
| **Merthyr Tudful** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,046,717.00 | £ 1,046,717.00 | £ - | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 610,000.00 | £ - | £ 610,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 1,656,717.00** | **£ 1,046,717.00** | **£ 610,000.00** | 36.8% |
| **Sir Fynwy** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,273,659.00 | £ 1,180,314.92 | £ 93,344.08 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 696,000.00 | £ 343,000.00 | £ 353,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 1,969,659.00** | **£ 1,523,314.92** | **£ 446,344.08** | 22.7% |
| **Castell-nedd Port Talbot (Cronni)** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,075,366.00 | £ 1,904,571.00 | £ 170,795.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,207,000.00 | £ 32,120.00 | £ 1,174,880.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,282,366.00** | **£ 1,936,691.00** | **£ 1,345,675.00** | 41.0% |
| **Casnewydd** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 2,192,301.00 | £ 1,416,356.82 | £ 775,944.18 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,232,000.00 | £ - | £ 1,232,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,424,301.00** | **£ 1,416,356.82** | **£ 2,007,944.18** | 58.6% |
| **Sir Benfro** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,986,356.00 | £ 1,983,268.53 | £ 3,087.47 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,124,000.00 | £ 1,124,000.00 | £ - | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 3,110,356.00** | **£ 3,107,268.53** | **£ 3,087.47** | 0.1% |
| **Powys** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 3,452,671.00 | £ 3,082,643.00 | £ 370,028.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,248,000.00 | £ 74,553.00 | £ 1,173,447.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 4,700,671.00** | **£ 3,157,196.00** | **£ 1,543,475.00** | 32.8% |
| **Rhondda Cynon Taf** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 4,036,072.00 | £ 3,757,027.69 | £ 279,044.31 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 2,364,000.00 | £ 178,000.00 | £ 2,186,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 6,400,072.00** | **£ 3,935,027.69** | **£ 2,465,044.31** | 38.5% |
| **Abertawe** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 3,298,777.00 | £ 2,955,295.00 | £ 343,482.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,879,000.00 | £ 366,000.00 | £ 1,513,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 5,177,777.00** | **£ 3,321,295.00** | **£ 1,856,482.00** | 35.9% |
| **Torfaen** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,508,436.00 | £ 1,326,418.44 | £ 182,017.56 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 880,000.00 | £ 237,000.00 | £ 643,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,388,436.00** | **£ 1,563,418.44** | **£ 825,017.56** | 34.5% |
| **Bro Morgannwg (Cronni)** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,749,710.00 | £ 2,283,604.00 | -£ 533,894.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,068,000.00 | £ 441,341.00 | £ 626,659.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,817,710.00** | **£ 2,724,945.00** | **£ 92,765.00** | 3.3% |
| **Wrecsam** | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 1,798,854.00 | £ 1,730,590.00 | £ 68,264.00 | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 1,092,000.00 | £ - | £ 1,092,000.00 | |
| | **CYFANSWM YR AALI** | **£ 2,890,854.00** | **£ 1,730,590.00** | **£ 1,160,264.00** | 40.1% |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | Y Fargen Newydd i Ysgolion hyd 31 Mawrth 2001 | £ 48,134,373.00 | £ 38,948,323.89 | £ 9,186,049.11 | |
| | | | | | |
| | Cyllid Cyfalaf Ychwanegol | £ 26,800,000.00 | £ 4,486,432.46 | £ 22,313,567.54 | |
| | | £ 74,934,373.00 | £ 43,434,756.35 | £ 31,499,616.65 | |
| | | | | | |